# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 1 Mawrth 2018

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 - 3)

**2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio at yr Pwyllgor Cyllid - Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) - 21 Chwefror 2018**

(Tudalennau 4 - 5)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 4, 5 a 6

(09.00)

## 4 Ail Gyllideb Atodol 2017-18: Trafod yr adroddiad drafft

(09.00-09.15) (Tudalennau 6 - 25)

Papur 1 - Adroddiad drafft

## 5 Enwebiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

(09.15-09.25) (Tudalennau 26 - 44)

Papur 2 - Adroddiad drafft

Papur 3 - Ymateb gan lywodraeth leol - 22 Chwefror 2018

Papur 4 - Cynnig drafft

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 6 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Trafod ymatebion i'r ymgynghoriad

(09.25-09.40) (Tudalennau 45 - 63)

Papur 5 - Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Pecyn Ymgynghori (Saesneg)

Pecyn Ymgynghori (Cymraeg)

## 7 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn dystiolaeth 1 (CLlLC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru)

(09.40-10.30) (Tudalennau 64 - 90)

Y Cynghorydd Huw David, Llefarydd CLlLC dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Y Cynghorydd Susan Elsmore, Dirprwy Lefarydd CLlLC dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Caerdydd

Dave Street, Llywydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Papur 6 - Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Chwefror 2018

Amser: 09.01 - 12.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4616

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid<br>Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

| | |
|---|---|
| | Daniel Greenberg (Cynghorydd Annibynnol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN1 - Llythyr gan Awdurdod Cyllid Cymru - Teitlau tir trawsffiniol ac ad-daliadau i drethdalwyr gan yr Awdurdod - 30 Ionawr 2018**

**2.2 PTN2 - Llythyr gan y Cadeirydd at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) - 8 Ionawr 2018**

**2.3 PTN3 - Llythyr gan y Cadeirydd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) - 30 Ionawr 2018**

**2.4 PTN4 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) - 9 Chwefror 2018**

## 3 Ail Gyllideb Atodol 2017-18: sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid; Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru; a Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol, Llywodraeth Cymru ar Ail Gyllideb Atodol 2017-18.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ail Gyllideb Atodol 2017-18: trafod y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 7 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016: Offerynnau Statudol ym maes treth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018 a chytunodd i adrodd.

## 8 Proses y gyllideb ar gyfer deddfwriaeth

8.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn anffurfiol gyda Daniel Greenberg, bargyfreithiwr sy'n arbenigo mewn deddfwriaeth.

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - L/RE/0066/18

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

21 Chwefror 2018

Annwyl Simon,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith craffu ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 o'r broses ddeddfwriaethol. Rwyf wedi nodi ymatebion i'r tri argymhelliad a wnaed yn adroddiad craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) isod.

1) *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio strategaeth sy'n amlinellu sut y bydd yn monitro perfformiad ariannol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn lleihau'r risgiau sydd ynghlwm wrth ddadreoleiddio'r sector*

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae hyfywedd ariannol parhaus landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn hanfodol. Caiff perfformiad ariannol pob landlord cymdeithasol cofrestredig ei fonitro fel rhan o drefn reoleiddio barhaus ac mae'n sail i'r dyfarniadau rheoleiddiol blynyddol a gyhoeddir ar hyfywedd ariannol a threfniadau llywodraethu a gwasanaethau landlordiaid.

Mae risgiau pan fydd Byrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn penderfynu ymgymryd â gweithgareddau newydd. Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw sut mae Byrddau yn adnabod, yn deall, yn ystyried ac yn rheoli'r risgiau hynny. Felly, mae'r modd y caiff risgiau busnes newydd eu hadnabod, eu hasesu a'u rheoli yn rhan annatod o'r Safonau Perfformiad a chaiff hyn ei ystyried wrth wneud dyfarniadau rheoleiddiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adolygiad o lefelau amlygiad presennol i weithgareddau busnes nad ydynt yn weithgareddau craidd (arallgyfeirio) ac yn nodi ei bwriad i fonitro blaengynlluniau dros gyfnod treigl o bum mlynedd er mwyn llywio'i barn ar lefelau amlygiad cyffredinol y sector, yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig unigol i sicrhau bod y risg yn briodol a rhesymol. Bydd yr adolygiad a'r strategaeth yn cael eu cyhoeddi yn y trosolwg arfaethedig o risgiau'r sector yng Ngwanwyn, 2018.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2) *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu adnoddau digonol i alluogi'r Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid i gyfathrebu mwy â thenantiaid i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau o ganlyniad i'r Bil hwn ac yn eu deall.*

3) *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu adnoddau digonol i gynhyrchu canllawiau ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu'r drefn newydd.*

Rwy'n derbyn yr argymhellion hyn. Rwyf o'r farn ar hyn o bryd bod adnoddau digonol ar gael am y rhesymau a nodwyd yn yr Arfarniad Effaith Rheoliadol. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Pwyllgor bod adnoddau yn cael eu hadolygu'n gyson gan swyddogion ac mewn cysylltiad â TPAS Cymru a'r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Rwy'n mawr obeithio bod y llythyr o gymorth wrth nodi fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch eu hadroddiadau Cyfnod 1 ac anfonir copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio â'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy'r Cynulliad.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Steve Thomas
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

8 Chwefror 2018

Annwyl Steve,

**ENWEBIAD I BENODI ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Yn dilyn fy llythyr ar 10 Hydref 2017, rwy'n ysgrifennu i gadarnhau y detholwyd Adrian Crompton fel yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rwy'n amgáu copi o fanylion ei yrfa er gwybodaeth.

Yn dilyn proses recriwtio drwyadl a chystadleuol, detholwyd yr ymgeisydd gan banel o dan fy nghadeiryddiaeth i, ochr yn ochr â'r canlynol:

- Nick Ramsay AC (Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus);
- Isobel Garner (Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru);
- Caroline Gardner (Archwilydd Cyffredinol yr Alban); gyda
- Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru) fel Ymgynghorydd Annibynnol.

Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawiad cyhoeddus cyn enwebu gyda'r ymgeisydd a ffefrir ar 31 Ionawr, sy'n cefnogi'r enwebiad i'w benodi. Gallwch wylio'r gwrandawiad cyn enwebu drwy'r linc canlynol:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/0b818a4d-d283-4a4b-bb87-f2d231d8efcf?autostart=True

Yn unol ag Adran 2(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae'n ofynnol i ni ymgynghori â chi (fel y corff sy'n cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru) cyn gwneud enwebiad i benodi.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Bwriedir i'r Cynulliad ystyried cynnig i enwebu'r ymgeisydd a ffefrir i'w benodi gan Ei Mawrhydi ym mis Mawrth 2018. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 21 Chwefror 2018.

Os bydd angen unrhyw eglurhad pellach arnoch, neu wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â'm prif swyddog: Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6372. SeneddCyllid@cynulliad.cymru

Yn gywir,

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*

# Career history – Adrian Crompton

### May 2007 to date
### Director of Assembly Business, National Assembly for Wales

- leadership of some 160 staff who provide the specialist parliamentary research, legal, procedural, communications and administrative support that the Assembly requires;
- personal responsibility for ensuring the effective conduct of all formal proceedings of the Assembly in its plenary meetings and committees;
- principal advisor to the Llywydd on the programme of legislative reform to increase the size of the National Assembly and fundamentally reform its electoral system;
- resource budget of around £7 million;
- member of executive boards within the organisation that provide strategic leadership, ensure good governance and decide the strategic allocation of all financial and personnel resource;
- numerous corporate responsibilities: for example, currently as chair of the principal change initiative, the *MySenedd* digital transformation programme;
- senior advisor to the **National Assembly for Wales Remuneration Board**, the independent body that sets the pay, pension and financial support of Assembly Members.

### April 2014 to date
### Global Partners Governance Associate

Spent 2014 working for Global Partners Governance, a social purpose company strengthening parliamentary democracy and political institutions in countries around the world. This work continues today, alongside role at the National Assembly, providing expert advice and support to senior politicians and civil servants, primarily in countries in the Middle East and North Africa – Sudan, Iraq, Egypt and Jordan. This expertise and practical support is at the heart of projects nurturing democratic transition in what are some of the most difficult and challenging political environments in the world.

### September 2006 to May 2007
Head of the Members' Research and Committee Service, National Assembly for Wales

### March 2004 to August 2006
Head of the Members' Research Service, National Assembly for Wales

### July 1999 to March 2004
Committee Clerk, National Assembly for Wales

### October 2002 to October 2003 (secondment)
Advisor to the University of London Constitution Unit

### February 1998 to July 1999
Government statistician, Welsh Office/National Assembly for Wales

### May 1988 to February 1998
Research Clerk, House of Commons Library Research Division

### Other information
- University of Bath 1983-87. BSc Economics, 2:1.
- Industrial placement with IBM 1985-86.

## Career history – Adrian Crompton

- 1997 Industry & Parliament Trust Fellowship with Railtrack
- 2011 - 2017, a Board member of LINC Cymru, a socially responsible company providing social housing and care services for the elderly across south Wales.
- Member of the **Study of Parliament Group**, which brings together senior parliamentary staff and academics studying parliamentary government and political science.
- Member of the **Political Studies Association**, which promotes political engagement and research with politicians, academia, the media and other key opinion formers.

**Ein Cyf** / Our Ref: ST/SS
**Eich Cyf** / Your Ref:
**Dyddiad** / Date: 22nd February 2018
**Gofynnwch am** / Please ask for: Steve Thomas
**Llinell uniongyrchol** / Direct line: 029 2046 8610
**Ebost** / Email: steve.thomas@wlga.gov.uk

CLlLC • WLGA

Simon Thomas AM
Chair of the Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear Simon,

Thank you for your letter setting out the appointment of Adrian Crompton as the new Auditor General for Wales. I have dealt with Adrian in his current role and have found him to be highly professional and capable. I am sure he will develop the role of the Auditor General in Wales and subject the public sector to scrutiny without “fear or favour”, also his understanding of Welsh Government and National Assembly for Wales will be an asset to the organisation.

Local Government is the largest client of the WAO and we have worked closely with Huw Thomas over the years. We wish him a happy retirement.

As the largest client we also have concerns about the current focus of the WAO. For example, it is a widely held view across Councils that many of the national studies produced are neither timely or particularly insightful. Equally while the WAO may have trimmed its fees in recent years these reductions bear no relation to the financial cuts experienced by Councils. We hope that Adrian will engage with WLGA and Councils on these issues once he starts the role as Auditor General.

I hope these comments assist.

Your sincerely,

**Steve Thomas CBE**
Prif Weithredwr/Chief Executive

Steve Thomas CBE
Prif Weithredwr
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru
wlga.wales

@WelshLGA

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio’r naill iaith na’r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-06-18 P6

Eitem 7

# TYSTIOLAETH CLlLC AC ADSS CYMRU I'R PWYLLGOR CYLLID AR YR YMCHWILIAD I GOST GOFALU AM BOBLOGAETH SY'N HENEIDDIO

CLlLC • WLGA

ADSS Cymru
Leading Social Services in Wales
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

**IONAWR 2018**

## Amdanom ni

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli 22 awdurdod lleol Cymru, ac mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol, y tri awdurdod tân ac achub, a'r pedwar awdurdod heddlu yn aelodau cyswllt.

2. Mae CLlLC yn sefydliad gwleidyddol trawsbleidiol, gydag arweinwyr o'r holl awdurdodau lleol yn penderfynu ar bolisi drwy'r Bwrdd Gweithredol a Chyngor ehangach CLlLC. Mae CLlLC hefyd yn penodi uwch aelodau fel Llefarwyr a Dirprwy Lefarwyr i ddarparu arweiniad cenedlaethol ar faterion polisi ar ran llywodraeth leol.

3. Mae CLlLC yn gweithio'n agos gyda chynghorwyr proffesiynol a chymdeithasau proffesiynol o lywodraeth leol ac yn cael cyngor ganddynt yn aml. Fodd bynnag, CLlLC yw corff cynrychioli llywodraeth leol ac mae'n darparu llais gwleidyddol cyfunol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

4. Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) yw sefydliad arweinyddiaeth proffesiynol a strategol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, a Phenaethiaid Gwasanaethau sy'n eu cefnogi i gyflawni cyfrifoldebau ac atebolrwydd gwasanaethau cymdeithasol; grŵp o dros 80 o arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol ledled 22 awdurdod lleol Cymru.

## Cyflwyniad

5. Rydym yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio. Mae llawer o sylw wedi'i roi i'r heriau demograffig y mae Cymru'n eu hwynebu. O holl wledydd y DU, Cymru sydd wedi gweld y twf cyffredinol arafaf mewn poblogaeth, ond Cymru hefyd sydd â'r boblogaeth o bobl hŷn (65 oed a throsodd) sy'n tyfu fwyaf a chyflymaf. Mae adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn 2016 yn cadarnhau, er bod baich cyflyrau cronig a chymhleth sy'n gysylltiedig â disgwyliad oes hirach yn cynyddu ledled y DU, mae'n uwch yng Nghymru na Lloegr[1]. Mae

[1] OECD Reviews of Health Care Quality: United Kingdom 2016 - Raising Standards (ar gael yma: http://www.oecd.org/unitedkingdom/oecd-reviews-of-health-care-quality-united-kingdom-2016-9789264239487-en.htm)

dangosydd allweddol arall, lefelau tlodi (cysylltiedig â salwch) yn uwch yng Nghymru na gwledydd eraill y DU hefyd.

6. Daw hyn ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus lleol wedi wynebu dros £1 biliwn o doriadau ers cyflwyno mesurau cyni yn 2010. Gyda phwysau ar wasanaethau rhywle rhwng £150 miliwn a £300 miliwn y flwyddyn, ni ellir cynnal y sefyllfa ariannol. Mae cynghorau'n defnyddio eu strategaethau ariannol tymor canolig i gynllunio ar gyfer gofynion arbedion y dyfodol ond mae yna risgiau amlwg o ran cydnerthedd ariannol, yn enwedig costau cynyddol gofal cymdeithasol ac angen cynyddol.

7. Mae gofal cymdeithasol wedi'i nodi fel sector o bwysigrwydd strategol cenedlaethol gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ac mae 'Ffyniant i Bawb' wedi nodi gofal cymdeithasol fel un o'i feysydd blaenoriaeth gyda'r gallu i wneud y cyfraniad mwyaf posibl i ffyniant a llesiant hirdymor. Daw hyn yr un pryd â'r Adolygiad Seneddol i ddyfodol hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru sy'n adrodd bod yr achos am newid yn gryf, a bod angen creu gwasanaethau iechyd a gofal di-dor i bobl Cymru. Credwn fod ystyried dyfodol hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol er mwyn gweld sut y gallwn greu system iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy wedi'i hariannu'n briodol. Bydd hyn yn ganolog wrth ddatblygu dull newydd yng Nghymru sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn enwedig o ystyried y pwysau ariannol a demograffig sydd ar y system.

## Patrymau'r Galw

8. Mae'r heriau ehangach sy'n wynebu gofal cymdeithasol yn dra hysbys. Yn sgil newidiadau demograffig, mae gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yn wynebu mwy o ofynion a gofynion mwy cymhleth; mae mwy o bobl yn cael diagnosis o fwy nag un cyflwr iechyd y gellir ei atal; ac mae gan bobl hŷn, fregus anghenion cynyddol gymhleth. Daw hyn ar adeg pan rydym yn parhau i wynebu cyni difrifol mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU.

9. Ar hyn o bryd, mae tua 70% o oedolion (18+ oed) sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol dros 65 oed a bydd bron traean ohonynt dros 85 oed. Gwyddom hefyd yn y boblogaeth ehangach, fod tua 28% o bobl 85 oed a throsodd yn derbyn cymorth gan wasanaethau cymdeithasol, o gymharu ag ychydig o dan 3% o bobl dros 18 oed. Mae hyn yn dangos yr effaith sylweddol y bydd poblogaeth sy'n heneiddio, gydag anghenion cynyddol gymhleth, yn ei chael ar wasanaethau.


10. Roedd yr adroddiad diweddaraf gan Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025, 'A delicate balance? Health and Social Care spending in Wales' yn canolbwyntio ar yr anawsterau mae awdurdodau lleol yn eu cael wrth geisio ymdopi â'r gwariant. Mae'r adroddiad yn nodi nad yw gwariant ar ofal cymdeithasol i bobl dros 65 oed yn cyfateb i'r twf ym mhoblogaeth pobl hŷn. Mae'r boblogaeth dros 65 oed sy'n cynyddu yng Nghymru'n golygu, er bod gwariant dydd i ddydd ar wasanaethau cymdeithasol i oedolion a drefnir gan awdurdodau lleol wedi aros yn gymharol wastad mewn termau real, mae gwariant fesul person hŷn wedi gostwng bron i 13% mewn termau real dros y

pum mlynedd diwethaf yng Nghymru, gan arwain yn anochel at effeithiau ar wasanaethau i bobl hŷn agored i niwed. Byddai'n rhaid i wariant y pen gynyddu o leiaf £129 miliwn (24%) (prisiau 2016-17) rhwng 2015-16 a 2020-21 i sicrhau'r lefel gyfwerth o wariant yn 2009-10, sy'n gynnydd o 2.5% o un flwyddyn i'r llall.

11. Mae'r adroddiad yn ategu canfyddiadau adroddiad y Sefydliad Iechyd, 'The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales to 2019-20 and 2030-31', gan gydnabod heriau deuol y pwysau ariannol a'r pwysau o ran galw y mae iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod bod iechyd y boblogaeth yn dibynnu ar lawer mwy na safon gwasanaethau gofal iechyd yn unig. Mae prif benderfynyddion iechyd y tu allan i reolaeth gwasanaethau iechyd i raddau helaeth, felly mae safon gofal cymdeithasol a'r gwariant arno yn un o'r effeithiau cryfaf ar y galw am ofal iechyd. Amcangyfrifwyd y bydd pwysau ar ofal cymdeithasol oedolion yn unig yn codi tua 4.1% y flwyddyn mewn termau real rhwng 2015 a 2030-31, yn sgil demograffeg, cyflyrau cronig a chostau cynyddol. Bydd gofyn i'r gyllideb gofal cymdeithasol ddyblu bron iawn i £2.3 biliwn erbyn 2030-31 i gwrdd â'r galw.

12. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn amcangyfrif y bydd nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw yng Nghymru wedi cynyddu 33% erbyn 2035. Bydd y cynnydd mwyaf yn nifer y bobl dros 85 oed – mae disgwyl i'r nifer hwn godi 107% yn ôl system Daffodil y Sefydlid Gofal Cyhoeddus. Gellir gweld effaith y cynnydd hyn ar rai agweddau ar wasanaethau cymdeithasol yn Ffigurau 1 a 2 isod sy'n dangos y cynnydd rhagamcanol mewn galw, yn enwedig ar gyfer y rhai dros 85 oed, a fydd yn cael ei roi ar wasanaethau gofal cymdeithasol cymunedol a phreswyl yn y dyfodol.


**Ffigur 1:** Amcanestyniadau o bobl 18+ oed sy'n derbyn gwasanaethau cymunedol, fesul oedran, hyd at 2035




(Ffynhonnell: Daffodil)

Pobl 18-64 oed sy'n derbyn gwasanaethau yn y gymuned
Pobl 65-74 oed sy'n derbyn gwasanaethau yn y gymuned
Pobl 75-84 oed sy'n derbyn gwasanaethau yn y gymuned
Pobl 85 oed a throsodd sy'n derbyn gwasanaethau yn y gymuned

**Ffigur 2:** Amcanestyniadau o bobl 18+ oed sy'n derbyn gwasanaethau preswyl, fesul oedran, hyd at 2035




(Ffynhonnell: Daffodil)

Pobl 18-64 oed sy'n derbyn gwasanaethau preswyl
Pobl 65-74 oed sy'n derbyn gwasanaethau preswyl
Pobl 75-84 oed sy'n derbyn gwasanaethau preswyl
Pobl 85 oed a throsodd sy'n derbyn gwasanaethau preswyl

13. Bydd y ddemograffeg newidiol yn effeithio ar ofalwyr di-dâl hefyd. Mae poblogaeth sy'n heneiddio gyda gwell disgwyliad oes i bobl â chyflyrau hirdymor neu anableddau cymhleth yn golygu bod angen darparu mwy o ofal lefel uchel am gyfnod hirach. Rydym yn debygol o weld mwy o bobl hŷn mewn rôl ofalu, gyda nifer y gofalwyr dros 85 oed yn debyg o ddyblu dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae mwy o oriau gofalu'n aml yn arwain at ddirywiad graddol yn iechyd gofalwyr. Mae gofalwyr di-dâl sy'n darparu lefelau uchel o ofal i berthnasau a ffrindiau sâl, anabl, ddwywaith yn fwy tebygol o ddioddef iechyd gwael o gymharu â phobl heb gyfrifoldebau gofalu. Gall cyfrifoldebau gofalu gael effaith andwyol ar iechyd corfforol a meddyliol, addysg a photensial cyflogaeth y rhai sy'n gofalu, a all arwain at ganlyniadau iechyd a safon byw llawer gwaeth. Yn eu tro gall y rhain effeithio ar effeithiolrwydd y gofalwr ac arwain at dderbyn yr unigolyn sy'n derbyn gofal i'r ysbyty neu ofal preswyl, gan roi mwy o bwysau ar ein system sydd wedi ei gorymestyn yn barod.

14. Mae pob rhanbarth wedi cyhoeddi ei Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarthol ac wrthi'n datblygu eu cynlluniau Ardal Poblogaeth. Mae pob un yn nodi rôl bwysig a hanfodol gofalwyr di-dâl ac wedi ymrwymo i wella gallu gofalwyr i fanteisio ar wyliau a gofal seibiant addas sy'n diwallu anghenion y bobl maent yn gofalu amdanynt - anghenion amrywiol a chymhleth yn aml. Mae llawer o ranbarthau'n mapio neu'n ystyried opsiynau mwy hyblyg sy'n diwallu anghenion arbenigol, fel awtistiaeth neu ddementia. Cydnabyddir bod angen i gynllunio ar gyfer gwasanaethau gofalwyr ystyried anghenion gofalwyr hŷn yn y dyfodol a dod o hyd i ffyrdd o gefnogi gofalwyr hŷn i gynllunio at y dyfodol.


## Pwysau Costau Cyffredinol ar lywodraeth leol

15. Mae'r rhagolygon hirdymor lefel uwch a baratowyd gan Sefydliad Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 yn cael eu hategu gan amcangyfrifon byrdymor CLlLC. Mae cyfran fawr o bwysau ar ochr gyflenwi'r blynyddoedd nesaf yn deillio naill ai o gostau gweithlu uniongyrchol cynghorau, neu gostau anuniongyrchol darparwyr trydydd parti. Mewn blynyddoedd a fu, cafwyd cynnydd sylweddol mewn costau, er enghraifft £60 miliwn mewn taliadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn sgil cyflwyno Pensiynau Un Haen yn 2016-17, a £18 miliwn ar gyfer yr ardoll Brentisiaethau yn 2017-18. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae yna bwysau sylweddol o gyfraniadau cynyddol gan gyflogwyr i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (£100 miliwn erbyn 2021-22).

16. Er bod dyfodol cyflogau'r sector cyhoeddus yn destun trafodaeth genedlaethol ar hyn o bryd, mae'r cynnydd o ragwelir 2% mewn cyflogau, yn dilyn blynyddoedd o gynnydd o 1%, yn cael ei ddwysáu gan effaith yr Adolygiad o'r Golofn Gyflog a allai ychwanegu 2.5% i gostau'r gyflogres bob blwyddyn dros gyfnod o ddwy flynedd, yn dibynnu ar y trafodaethau rhwng Cyflogwyr ac Undebau Llafur. Gyda'i gilydd, bydd costau £378 miliwn yn uwch erbyn 2021-22.

17. Mae Ffigur 3 isod yn dangos yr asesiad cyfredol o bwysau gwariant ar lywodraeth leol. Mae cyfanswm y pwysau gwariant ar gyfer 2018-19 yn uwch na'r amcangyfrifon blaenorol, sef £212 miliwn. Mae ychydig dros hanner hyn yn bwysau ariannol y gellir ei osgoi o gyflogau a phensiynau. Erbyn 2021-22 amcangyfrifir y bydd wedi codi i £762 miliwn gyda phwysau'r gweithlu (£378 miliwn) yn uwch na phwysau demograffig (£239 miliwn). Pwysau chwyddiannol arall fydd i gyfrif am £145 miliwn ar ddiwedd yr un cyfnod.

**Ffigur 3:** Pwysau cronnol hyd at 2021-22, fesul ffynhonnell, £ miliwn





**Ffynhonnell:** Amcangyfrifon gorau: Ffurflenni RO ac RA (2014-15 i 2015-16)

Gweithlu
Demograffeg
Chwyddiant

18. Mae Ffigur 4 isod yn dangos bod cyfran fwy o bwysau yn cyniwair mewn gwasanaethau cymdeithasol. Mae pwysau ychwanegol o £99 miliwn y flwyddyn nesaf yn codi i fod yn £344 miliwn erbyn 2021-22. Mae ffactorau sy'n ysgogi costau yn y gwasanaeth addysg yn codi o £64 miliwn y flwyddyn nesaf i £258 miliwn dros yr un cyfnod. Mae elfennau sefydlog y gyllideb - cyllido cyfalaf, ardollau tân a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - yn codi o £17 miliwn i £66 miliwn erbyn diwedd y cyfnod. Y gwasanaethau sy'n weddill yw'r rhai sydd yn y perygl mwyaf a'r meysydd sydd wedi dioddef waethaf yn sgil cyni.

**Ffigur 4:** Pwysau cronnol hyd at 2021-22, fesul gwasanaeth, £ miliwn



**Ffynhonnell:** Amcangyfrifon gorau: Ffurflenni RO ac RA (2014-15 i 2015-16), Effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol Arolwg CLlLC (2016)


Addysg
Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyllidebau Sefydlog
Gwasanaethau Eraill

## Pwysau penodol ar wasanaethau cymdeithasol

19. Ym model CLlLC, rydym yn cymryd yr amcangyfrif ehangach o ffactorau galw ar draws yr holl wasanaethau cymdeithasol o waith cynharach Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 a oedd yn dangos bod pwysau'n ysgogi tua 2.9% o dwf bob blwyddyn. Mae hwn yn gynnydd o tua £47 miliwn bob blwyddyn hyd at 2021-22.

20. Mae Ffigur 5 isod yn dangos fod pwysau demograffig i gyfrif am tua hanner y twf a ragwelir y flwyddyn ariannol nesaf o fewn cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol, cyfran sy'n cynyddu'n raddol hyd at 2012-22. Pwysau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gweithlu sydd i gyfrif am y gweddill.

**Ffigur 5:** Elfennau o bwysau gofal cymdeithasol hyd at 2021-22, fesul gwasanaeth, £ miliwn




Dyfarniadau cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol
Pensiynau
Cyflog Byw Cenedlaethol = 3ydd Parti
Demograffeg

21. Pwysau cysylltiedig â gofal cymdeithasol sy'n parhau i achosi'r risg mwyaf i sefydlogrwydd ariannol cynghorau yn y tymor canolig i'r tymor hir. Ni fydd y trefniadau cyllido cyfredol yn cwmpasu'r cynnydd disgwyliedig mewn costau a galw sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd pwysau gwariant ar lywodraeth leol yn dod i gyfanswm o tua £212 miliwn yn 2018-19 a fydd yn gorfod cael ei ysgwyddo'n llawn gan gynghorau (neu doriadau mewn mannau eraill) neu eu gwrthbwyso'n rhannol drwy godi'r dreth gyngor.

22. Mae sgil-effaith y pwysau ar ofal cymdeithasol wedi golygu bod marchnad y darparwyr wedi bod yn fregus ers cryn amser ac mae'r holl arwyddion yn awgrymu y bydd yr anawsterau'n dwysáu. Er enghraifft, mae 13 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi adrodd am gontractau gofal cartref yn cael eu dychwelyd iddynt. Mewn rhai ardaloedd o Gymru mae'n anodd iawn cael gafael ar ofal cartref i ymateb i achosion cymhleth neu oherwydd natur wledig yr ardal, gyda darpariaeth awdurdodau lleol yn gorfod llenwi'r bwlch, gyda thrafferth yn aml.

23. Mae yna gyfres o ffactorau sydd wedi cynyddu neu a fydd yn cynyddu costau darparu gwasanaethau gofal ymhellach, yn cynnwys:
    - Y Cyflog Byw Cenedlaethol
    - Dyfarniad ar drefniadau cysgu i mewn
    - Newidiadau i bensiynau
    - Costau teithio
    - Effaith newidiadau CThEM

24. Y pwysau ar ofal cymdeithasol yw'r rhai mwyaf sylweddol, brys ac uniongyrchol i awdurdodau lleol ond mae angen i ni gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau eraill cynghorau, sydd i gyd yn helpu i gwrdd â'r galw a roddir ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gwasanaethau fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden wedi bod yn cyfrannu'n gynyddol at gefnogi pobl hŷn i gadw'n iach ac annibynnol. Gwyddom hefyd y gall tai addas wella bywyd yn sylweddol ymysg y boblogaeth hŷn, tra bod tai anaddas yn gallu achosi llawer o broblemau a chostau. Bydd yna angen o hyd am nyrsio a gofal preswyl o safon uchel i'r rhai sydd ei angen, a bydd angen ystyried dewisiadau amgen fel cymorth gwell yn y cartref. Mae gan dai sydd wedi'u cynllunio'n briodol ac sy'n gallu addasu i anghenion newidiol pobl wrth iddynt heneiddio nifer o fanteision, yn cynnwys lleihau'r galw ar wasanaethau iechyd a gofal. Rydym yn credu'n gryf fod yna angen gwirioneddol i fuddsoddi mewn tai i bobl hŷn i wella'r ddarpariaeth gyfredol a chynllunio ffyrdd newydd a chreadigol o ddarparu tai addas, sydd wedi'u teilwra i anghenion sectorau cyfan o'n cymunedau. Gan ein galluogi i ddiwallu'r anghenion a'r gofynion newidiol sy'n cael eu rhoi ar ein gwasanaethau.

25. Rydym yn credu'n gryf mai buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol ddylai fod yn flaenoriaeth graidd i Lywodraeth Cymru, yn unol ag athroniaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac o ran polisi cyllidebu cadarn. Mae llawer o wasanaethau ataliol mewn llywodraeth leol, fel canolfannau hamdden, parciau, addysg oedolion, gwaith ieuenctid a chyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu yn ôl disgresiwn cynghorau lleol. Yn anffodus, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y gwasanaethau ataliol hyn sydd wedi wynebu'r toriadau gwaethaf i gyllidebau awdurdodau lleol wrth i wasanaethau statudol fel addysg a

gwasanaethau lleol gael eu diogelu. Dangosodd adroddiad diweddar gan Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025, 'Austerity and Local Government in Wales: an analysis of income and spending priorities, 2009-10 to 2016-17', yr effaith sylweddol mae wyth mlynedd o gyni wedi'i chael ar wasanaethau cyhoeddus lleol. Mae toriadau mewn gwasanaethau llai ond hanfodol wedi bod yn ddyfn, gyda chwestiynau'n cael eu gofyn am y gallu i'w cynnal yn y dyfodol pe bai rhagor o doriadau.

26. Yn yr un cyfnod yn y GIG mae cyllid sydd ar gael wedi'i dargedu at wella perfformiad gwasanaethau gofal eilaidd, yn enwedig mynd i'r afael ag amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Mae yna fwy o bwysau nag erioed ar wasanaethau ysbytai ac mae sefydliadau'r GIG felly wedi cael trafferth i ailgyfeirio adnoddau i wasanaethau ataliol mewn lleoliadau cynradd a chymunedol.

27. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y Gronfa Gofal Canolraddol, y Gronfa Gofal Integredig bellach, wedi cael croeso gan lywodraeth leol ac wedi arwain at gyflwyno nifer o wasanaethau ataliol ledled Cymru, gyda phobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor yn un o feysydd blaenoriaeth y gronfa. Mae pob rhanbarth wedi adrodd bod y Gronfa wedi datblygu diwylliant o gydweithio gyda chyfathrebu a phenderfyniadau gwell yn digwydd ar draws pob sector. Mae yna ddealltwriaeth well o'r hyn y gall gwahanol bartneriaid ei ddarparu, a gwybodaeth well am arferion da yn y rhanbarth y gellir eu datblygu a'u rhannu'n ehangach. Mae'r gronfa wedi cynyddu capasiti i wella canlyniadau i bobl ac i ymdrin â galw am wasanaethau hefyd. Mae meysydd arfer da yn cynnwys un pwynt mynediad, sefydlu timau gofal canolraddol (gan sicrhau gwasanaethau cydgysylltiedig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol), timau ymateb cyflym, staff gofal cymdeithasol neu drydydd sector yn gweithio ochr yn ochr â staff iechyd mewn ysbyty i atal oedi wrth ryddhau cleifion, ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau adsefydlu / ail-alluogi (yn cynnwys defnyddio fflatiau gofal canolradd fel rhan o safle iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol ehangach).

28. Daw ei lwyddiant o ddarparu adnoddau pwrpasol, gyda chefnogaeth gan arweinwyr â ffocws, penderfyniadau a llywodraethu o wneud ar y cyd, fel bod gwasanaethau cyhoeddus yn gallu canolbwyntio a sicrhau newid trawsnewidiol. Mae cyflwyno'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi dangos manteision cynllunio a gwneud penderfyniadau ar y cyd a chredwn fod modd gwneud mwy o hyn. Er enghraifft, drwy gynyddu'r cyllid sydd ar gael drwy'r Gronfa neu drwy ddod â'r gwaith o oruchwylio'r Gronfa Gofal Sylfaenol o dan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd newydd eu sefydlu, fel y mae'r Gronfa Gofal Canolraddol hefyd, er mwyn i ni allu ystyried cyfleoedd ar gyfer gweithio integredig yn llawn.

29. Mae pawb yn derbyn nad chwilio am arian yn unig yw hyn. Mae'n ymwneud â nodi arian a phobl nad ydynt wedi'u llesteirio gan bwysau neu reolau'r sector eisoes y gellir eu defnyddio i gyflawni rhywbeth newydd gan geisio cynnal lefel ac ansawdd gwasanaethau cyfredol o leiaf os nad eu gwella.

## Trefniadau ariannu gofal cymdeithasol

30. Mae mesurau cyni ariannol parhaus i awdurdodau lleol yn golygu nad oes fawr o gyfle i adlewyrchu pwysau costau mewn prisiau a delir am ofal yn y dyfodol agos. Ni all darparwyr gofal ysgwyddo cynnydd mewn costau yn ddi-ben-draw (ac ni all hunan-gyllidwyr eu croes-gymorthdalu) ac oni bai y deuir o hyd i ateb mwy strategol a chynaliadwy, gwelir canlyniadau sylweddol ar draws y farchnad gofal cymdeithasol.

31. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu cynllun strategol pum mlynedd ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn cydnabod yr angen am newid systematig i'r ffordd y darperir gofal a chymorth yn y cartref. Mae'r strategaeth yn nodi'r angen i Lywodraeth Cymru aildrefnu cyllid ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael i gynyddu a gwneud y gorau o adnoddau a fuddsoddir mewn gofal a chymorth yn y cartref.

32. Mae adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru cyn hyn) o ofal cartref yn cefnogi'r farn hon, gan nodi er y bydd rhai rhannau o'r system yn fwy effeithlon wrth symleiddio a safoni prosesau ac y bydd rhywfaint o arian yn cael ei arbed o bosibl, ni fydd hyn yn ddigon ynddo'i hun. Mae angen i ragor o arian fod ar gael yn y system fel bod yna weithlu cryf a chymwys a gofal o safon yn cael ei ddarparu yn y blynyddoedd i ddod.

33. Er bod cynllunio ariannol tymor canolig wedi'i sefydlu'n gryf ac yn gwella mewn awdurdodau lleol, mae meddwl ar gyfer yr hirdymor yn rhywbeth cymharol newydd, er bod yna arwyddion cadarnhaol bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfrwng defnyddiol i edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau'r dyfodol. Mae rhai awdurdodau'n dechrau cynnal rhaglenni gwaith 'awdurdod cyfan' strategol. Er enghraifft, mae 'Dyfodol Sir Fynwy' yn ceisio gofyn set o gwestiynau am ddiben craidd yr awdurdod, ei berthynas â chymunedau, dinasyddion a rhanddeiliaid a'i awydd am dwf economaidd a ffyniant lleol.

34. Un o amcanion rhaglenni fel hon yw datblygu model gweithredu newydd er mwyn galluogi awdurdodau i gyflawni eu hamcanion mewn cyfnod o newid ac ansicrwydd cynyddol. Bydd gan y model gweithredu newydd bwrpas clir: creu'r capasiti a'r craffter i ddatblygu atebion i rai o'r heriau mwyaf, gan sicrhau bod awdurdodau'n deall anghenion a blaenoriaethau newidiol cymunedau ac yn gosod eu hunain fel galluogwyr newid.

35. Ni allwn barhau fel yr ydym wedi'i wneud dros yr wyth mlynedd diwethaf o gyni lle rydym yn gorfod dod o hyd i gyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol o gymysgedd o godi'r dreth gyngor a chyllid o feysydd dewisol. Yn ei Adroddiad ar Gydnerthedd Ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfrif bod yna ostyngiad termau real o £761 miliwn (17%) wedi bod mewn cyllid allanol cyfun (grant craidd) i lywodraeth leol rhwng 2010-11 a 2016-17. Mae hyn wedi cael

effeithiau amrywiol ar draws gwasanaethau cyhoeddus lleol gyda rhai'n profi gostyngiadau termau real o dros 50% a lefelau gwariant nas gwelwyd ers yr 1990au.

36. O ystyried y pwysau sylweddol, mae yna gonsensws cynyddol bod gofal cymdeithasol yn her o'r fath faint sylweddol fel bod angen ffordd newydd o feddwl am gyllid. Roedd yr argyfwng mae gofal cymdeithasol yn ei wynebu'n fater o bwys yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol, a hynny'n haeddiannol, ac mae'n dangos pa mor bryderus yw'r cyhoedd am sut rydym yn gofalu am bobl hŷn a phobl anabl. Mae angen gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd rydym yn ariannu gofal cymdeithasol os ydym am ddarparu system gynaliadwy hirdymor sy'n gweithio i bawb mewn cymdeithas ac yn diwallu eu hanghenion gyda gwasanaethau diogel o safon uchel. Bydd gofyn gwneud penderfyniadau anodd, dewr a dadleuol o bosibl i sicrhau dyfodol hirdymor gofal a chymorth, nid i bobl hŷn yn unig, ond i bobl o bob oed.

37. Nid yw hon yn ddadl newydd, yn 2013 er enghraifft, comisiynodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ymchwil gan LE Wales ar dalu am ofal yng nghyd-destun Cymru a oedd yn cynnwys data ar daliadau cyfredol, cyfansoddiad y boblogaeth heddiw ac yn y dyfodol, a thueddiadau mewn incwm a chyfalaf. Cyhoeddwyd dau adroddiad ymchwil, y cyntaf ym mis Ebrill 2014. Roedd yr adroddiad yn darparu data ar dueddiadau poblogaeth yng Nghymru ac amcanestyniadau o'r galw am wasanaethau gofal heddiw ac yn y dyfodol. Roedd hefyd yn cynnwys data yn nodi gwariant ar, ac incwm o, wasanaethau gofal, a threfniadau codi tâl ledled Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn edrych ar fodelau eraill o dalu am ofal ac yn ystyried y trefniadau mewn gwledydd eraill yn cynnwys Ffrainc, yr Almaen, Sweden, Siapan ac Awstralia. Roedd ail adroddiad LE Wales, a gyhoeddwyd yn Hydref 2014, yn darparu amcanestyniadau o'r galw am ofal a chostau gofal mewn nifer o senarios dros gyfnod o 25 mlynedd o 2013 i 2037. Roedd yr ail adroddiad hwn hefyd yn nodi effeithiau posibl gwahanol opsiynau polisi ar gyfer gofal preswyl a gofal nad yw'n breswyl. Ystyriwyd pum opsiwn polisi:

- Opsiwn 1: Yr holl gostau gofal yn cael eu talu drwy wariant y llywodraeth
- Opsiwn 2: Cyfraniad penodol gan y llywodraeth
- Opsiwn 3: Uchafswm wythnosol ar gyfraniad hunan-gyllidwyr
- Opsiwn 4: Codi trothwy asedau tai
- Opsiwn 5: Terfyn oes ar daliadau gofal

Roedd yr adroddiad hefyd yn edrych ar rai cynhyrchion gwasanaethau ariannol posibl ac opsiynau cyllido posibl gan y wladwriaeth, fel cronfa yswiriant cymdeithasol.

38. Yn eu papur diweddar ar gyfer y Sefydliad Materion Cymreig, Solving Social Care, awgrymodd Gerry Holtham a Tegid Roberts y dylid cael cronfa yswiriant cyffredin i dalu am y costau cynyddol i'r dyfodol. Awgrym arall gan sylwebydd y Financial Times, Merryn Somerset Webb oedd capio ffioedd y diwydiant rheoli asedau i ryddhau arian ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae'r ddau awgrym yn ymyriadau diddorol ac angen eu hystyried o ddifrif.

39. Rydym wedi croesawu cynnig diweddar Ysgrifennydd y Cabinet i ddefnyddio pwerau amrywio trethi newydd Llywodraeth Cymru i edrych ar gyllido ardoll gofal cymdeithasol. Mae angen canolbwyntio ar atebion cyllido hirdymor fel y cynnig hwn ac edrych ar sut y gallwn gael cymorth gwleidyddol a chyhoeddus iddynt. Gall cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol rymuso cynghorau i flaenoriaethu gwaith atal sy'n allweddol i leihau'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd a chadw pobl o ysbytai yn y lle cyntaf fel y gallant arwain bywydau llawn ac annibynnol yn eu cymunedau ac yn agos i'w hanwyliaid, a fydd yn lleihau costau i bwrs y wlad.

40. Sylfaen hanfodol ar gyfer diwygio hirdymor yw creu mwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o pam mae gofal cymdeithasol yn bwysig ynddo'i hun. Dylai pawb sy'n gysylltiedig â'n system ofal helpu i feithrin yr ymwybyddiaeth hon. Yn yr un modd, dim ond os yw'r pleidiau gwleidyddol i gyd yn gytûn ar ffordd ymlaen y gellir gwneud cynnydd. Mae angen trafodaeth agored a gonest am y cynigion a'r opsiynau, ac mae angen ymgysylltu'n llawn â'r cyhoedd ar y mater dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

41. Mae'n bwysig cofio nad yw'r opsiynau polisi rydym yn eu hystyried yn newid cyfanswm cost y system ofal, yn hytrach maent yn newid y ffordd o dalu am y costau hyn a phwy sy'n talu ac wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol, a pharatoi'r ffordd ar gyfer diwygio hirdymor, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â phwysau sy'n ein hwynebu nawr yn y tymor byr, fel natur fregus marchnad y darparwyr gofal.

## Casgliad

42. Credwn fod yna angen clir i Lywodraeth Cymru gydnabod yn llawn a mynd i'r afael â'r pwysau cyllid uniongyrchol sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd. Er ein bod wedi croesawu'r amddiffyniad cymharol mewn cyllid sy'n cael ei ddarparu i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn rhy aml o lawer fe welwyd dull o gymryd arian o un lle i dalu am rywbeth arall er mwyn darparu cyllid ychwanegol i'r GIG, gyda gofal cymdeithasol yn cael cyllidebau llai er mwyn diogelu'r GIG. Ni ellir gwahanu'r galw am wasanaethau'r GIG oddi wrth ansawdd gwasanaethau cyhoeddus eraill - mae cynaliadwyedd y GIG yn cydblethu â chynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus eraill, a gofal cymdeithasol yn fwyaf allweddol.

43. Rydym yn cydnabod yr holl bwysau sydd wedi crynhoi a'r galw ar gyllideb Cymru. Rydym yn cydnabod sefyllfa'r GIG yn llawn hefyd. Fodd bynnag, mae'r gyllideb iechyd wedi cael lefel o amddiffyniad sylweddol sydd wedi gweld cynyddiadau dros y 5 mlynedd diwethaf. O gymharu, mae cyllideb llywodraeth leol nawr yn ôl i lefelau 2004-5. O gofio faint o bwysau sydd, fel y nodwyd yn y papur hwn, mae'n rhaid i'r ffaith hon fod yn flaenllaw wrth ystyried y gyllideb dros y pum mlynedd nesaf.

44. Gwasanaethau cymdeithasol yw un o'n gwasanaethau cyhoeddus mwyaf hanfodol, sy'n cefnogi pobl o bob oed ar draws sbectrwm eang o anghenion i fyw mor annibynnol â phosibl ac yn eu

diogelu rhag niwed mewn sefyllfaoedd bregus. Mewn byd lle mae adnoddau yn mynd yn fwyfwy prin a lle mae yna fwy a mwy o alw, mae angen i Lywodraeth Cymru wireddu ei huchelgais o weld gwasanaethau cymdeithasol yn dod yn sector o bwysigrwydd strategol cenedlaethol. Bydd buddsoddiad yn gwella canlyniadau i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas gan helpu i sicrhau cynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol a chael effaith gadarnhaol sylweddol ar fywydau pobl.

---

**AM RAGOR O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â**


Stewart Blythe, Swyddog Polilsi – Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd
Stewart.blythe@wlga.gov.uk

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon